Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 2023 a gynhaliwyd yn rhithiol am 7 yn yr hwyr		
PRESENNOL		
Eifion Williams	Cynog Prys	
Llŷr Evans	Emyr Gareth	
Eleri wyn Thomas	Dafydd	
Elenid Glyn		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Eifion Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Nel Huws, Iwan Huws, Dan Williams a Meleri Jones.	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	E-bost Gwen Thomas - roedd y Cyngor wedi derbyn e-bost gan aelod o'r cyhoedd ym mis Mehefin ac roedd y Cyngor yn awyddus i siarad â hi ynglŷn â'r cynnwys, gobeithiwyd byddai amser wedi bod yn yr Ŵyl i gysylltu â hi ond yn anffodus nid oedd hyn yn bosib. Y Clerc i gysylltu â hi i weld od fyddai yn hoffi dod i un o gyfarfodydd y Cyngor.	**CLERC**
1.3	Hyfforddiant - nid yw pawb wedi anfon eu ceisiadau am hyfforddiant ar gyfer eleni. Y Clerc i anfon y rhestr i'r aelodau unwaith yn rhagor.	**CLERC DW**
1.4	Parcio ar y ffordd i'r Marina - cynhaliwyd trafodaeth ar y mater hwn. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r diffyg sydd yma. Maes sawl elfen yn creu'r diffyg, fel parcio gan fusnesau, cwsmeriaid, perchnogion cychod ac yn y blaen. Byddai unrhyw linellau melyn yn wthiad y broblem ymlaen i mewn i'r ardal breswyl. Y Clerc i anfon llythyr at Gyngor Gwynedd yn cynnig cyfarfod ar y safle.	**CLERC DW**
1.5	Rheolau Sefydlog - gobeithir edrych ar rain dros y gwyliau er mwyn eu mabwysiadau ym mis Medi.	**CLERC**
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol y Cyngor am fis Mehefin 2023 gan y Clerc ac fe'u derbyniwyd.	**CLERC**
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Ni Chadarnhawyd Cofnodion mis Mehefin oherwydd nid oedd digon o'r aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Y Cofnodion i'w cyflwyno eto ym mis Medi 2023	**CLERC**
4.2	Wi-Fi – cyswllt wedi ei wneud, gobeithir bydd cynnydd yn y mater hwn bellach.	
4.3	Llwybr 17 a Llwybr Cerrig yr afon – dim dilyniant y mater. Y Clerc i anfon at y Swyddog eto.	
4.4	Cyfrifiad diffibrilwyr - dim dilyniant wedi bod. Angen sicrhau cael gwybodaeth oddi wrth yr ysgol - y Cynghorydd Iwan Huws i sicrhau hyn yng nghyfarfod nesaf o'r llywodraethwyr.	**CLERC ASEDAU**
4.5	Llifogydd Afon Heulyn – y Clerc anfon symud ar y mater hwn.	**CLERC**

4.6	Datblygiad Penybryn - dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn.	
4.7	Cynllun Rheoli Traffig – dim ymateb wedi bod gan yr Heddlu. Y Clerc i anfon at yr Heddlu cyn symud ymlaen i drefnu cyfarfod.	
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau. Bydd angen gweithio tuag at gael polisi bioamrywiaeth yn fuan.	
7.0	**ASEDAU**	
	Dim i'w adrodd	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Dim byd ychwanegol adrodd i'r hyn a gyflwynwyd ym mis Mehefin.	**DW**
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim i'w adrodd	
11.0	**UNRHYW FATER ARALL**	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 08:00	
Llofnod:		**Dyddiad:**